

Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

- Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022 gan Michael Gove AS. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
- Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022.
- Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") pan fydd Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:
 - at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol neu arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
 - sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn nodi y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol dim mwy na phytnefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno. Fodd bynnag, ni osodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil tan 28 Medi 2022.



- 5.** Ar 24 Mai, ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd i egluro ei bod wedi cymryd amser i lawn ystyried yr effeithiau y bydd yr hyn a gynigir yn y Bil yn eu cael ar ddatganoli, a hynny oherwydd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu fawr ddim cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Bil yn un cymhleth. Nid oedd modd gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o ganlyniad i hynny.
- 6.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau o 8 Rhagfyr 2022 ar gyfer cyflwyno adroddiad.
- 7.** Ar 22 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 16 Chwefror 2023. Gosodwyd Memorandwm diwygiedig ar 28 Tachwedd a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("y Memorandwm Atodol") ar 30 Tachwedd, gyda'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, sef 16 Chwefror.

Amcanion polisi

- 8.** Mae paragraff 1 o Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi mai amcan Llywodraeth y DU yw'r hyn a ganlyn: "to reverse geographical disparities between different parts of the United Kingdom by spreading opportunity more equally." Mae gan y Bil bedwar amcan cyffredinol:
- Gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i bennu ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni cenadaethau ffyniant bro;
 - Creu fframwaith ar gyfer model newydd o awdurdodau siroedd wedi'u cyfuno er mwyn cyrraedd y nod a ganlyn: "by 2030, every part of England that wants one will have a devolution deal with powers at or approaching the highest level of devolution and a simplified, long-term funding settlement";
 - Rhoi pwerau i awdurdodau lleol adfywio trefi drwy arwerthiannau rhentu ar y stryd fawr a diwygiadau i'r broses prynu gorfodol; a
 - Diwygio'r system gynllunio.

Trafodaeth y Pwyllgor

- 9.** Mae'r Adroddiad hwn yn ystyried y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer sy'n ymwneud â materion o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Bydd y cymalau sy'n weddill y

mae angen cydsyniad ar eu cyfer (Rhan 1 – Cenhadaeth Ffyniant Bro a Rhan 10 – Amrywiol, crwydraeth a chardota) yn cael eu hystyried gan bwyllgorau perthnasol y Senedd.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Cynllunio, Rhan 3

10. Mae paragraff 52 o'r Memorandwm diwygiedig yn nodi bod cynllunio yn fater datganoledig, oni bai ei fod yn ymwneud â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol perthnasol; llinellau trydan uwchben ac eithrio llinellau cysylltiedig datganoledig; neu reilffyrdd ac eithrio rheilffyrdd sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru.

Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol, Rhan 5, cymalau 116-130

11. Mae'r Memorandwm diwygiedig yn nodi'r canlynol ym mharagraff 53:

Mae Rhan 5 o'r Bil yn disodli system asesu amgylcheddol yr UE gyda fframwaith newydd ar gyfer Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol. Mae'r deddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol yn cwmpasu ystod eang o faterion pwnc y mae deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir etc. Mewn sawl un o'r meysydd hyn mae materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli...Er bod rhai meysydd sy'n dod o dan y cymalau arfaethedig yn feysydd a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid cynnwys yr un fframwaith i raddau helaeth ar gyfer adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol mewn Deddf gan y Senedd, ar gyfer y meysydd pwnc hynny sydd o fewn cymhwysedd datganoledig."

Barn y Gweinidog

12. Mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol ym mharagraff 62 o'r Memorandwm diwygiedig: "Mae gan ddau faes, sef data cynllunio (cymalau 75-77 a 79-81) ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol (cymalau 116 – 130), fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn." Daw'r Memorandwm diwygiedig i'r casgliad a ganlyn:

"Nid oes modd gwireddu'r buddion posibl gan nad wyf yn derbyn y darpariaethau presennol o ystyried y ffordd y maent yn gymwys o ran Cymru a'n bod yn colli ein gallu i wneud rheoliadau ar gyfer Cymru yn y maes hwn. Mae'r sefyllfa hon yn codi am fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i

wneud darpariaeth ynghylch adroddiadau canlyniadau amgylcheddol mewn perthynas â'r DU gyfan, ac mae cymal 130(2) yn hepgor adran 71A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sef pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiadau arfaethedig. Byddai hyn yn dileu'r pŵer presennol i wneud darpariaeth yn y maes hwn."

Casgliad cyffredinol

Rydym yn nodi nad oedd Llywodraeth Cymru, ar adeg ystyried yr adroddiad hwn, mewn sefyllfa i argymhell bod y Senedd yn cydsynio i ddarpariaethau penodol yn y Bil y mae'n credu bod angen cydsyniad ar eu cyfer. O ran adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol, mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol yn y Memorandwm diwygiedig: "rwy'n agored i gael fy mherswadio ynghylch diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn meysydd a fyddai o fudd i Gymru ond a fyddai hefyd yn amddiffyn ein setliad datganoli."

Nid yw'r Pwyllgor yn gallu ffurfio barn ynghylch a ddylid argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi neu'n atal cydsyniad deddfwriaethol hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i allu darparu rhagor o wybodaeth.

Rydym yn siomedig ein bod yn y sefyllfa hon unwaith eto. Rydym wedi bod yn gyson yn ein safbwynt wrth graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eraill bod angen i Lywodraeth Cymru egluro'r darpariaethau'n llawn, ei rhesymau dros eu gwneud mewn Bil ar lefel y DU, a'i bwriadau polisi er mwyn i'r Senedd allu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch rhoi cydsyniad deddfwriaethol. Yn anffodus, mae wedi dod yn rhywbeth arferol i Femoranda fod yn ddiffygiol yn hyn o beth. Mae'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, fel y mae, yn gamweithredol ac yn anghynaliadwy.